# Gofal Plant i

# Blant a Phobl

# Ifanc Anabl

## Ymchwil

## i

## NCMA Cymru

**2009**

## RHAGAIR

Rydym wedi gwybod ers cryn dipyn fod plant ag anableddau'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag mwynhau eu hawliau'n llawn, gan gynnwys yr hawl i gael llais, i amddiffyniad, i addysg ac i chwarae. Ond mae'r prinder gwybodaeth gywir am eu bywydau yn arwain at gynllunio gwasanaethau'n aneffeithiol i blant anabl a'u teuluoedd sy'n golygu nad yw'r plant hyn yn cael rhai o'u hawliau o hyd.

Wedi'u catalogio yma mae barnau a phrofiadau rhai rhieni plant a phobl ifanc anabl ar draws tair ardal o Gymru. Mae eu darllen yn ddigon i'ch sobri. Mae'n amlygu sut mae rhai teuluoedd yn aml yn teimlo ar eu pennau eu hunain, yn cael trafferth i ddod o hyd i ofal plant sy'n hygyrch ac yn gallu bodloni eu hanghenion, yn methu cael gwybodaeth am wasanaethau a chymorth sydd ar gael iddynt ac yn byw mewn tlodi.

Mae teuluoedd â phlant anabl yn aml yn wynebu costau uwch felly gall cyflogaeth â thâl roi hwb sylweddol i'w hincymau a lleddfu tlodi. Serch hynny, mae bylchau mawr mewn darpariaeth gwasanaeth, rhai ohonynt wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn, yn cyfrannu at ddiffyg gofal plant fforddiadwy ac addas i'r teuluoedd hyn.

Yn ogystal â ffactorau ariannol gofal plant ar rieni, byddai cael at y fath gymorth yn helpu i alluogi'r plant a'r bobl ifanc hyn i fyw bywydau llawn ac annibynnol. Byddai hefyd yn gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael a'r rhagfarn a'r gwahaniaethu sy'n eu hwynebu weithiau.

Gobeithiaf y bydd y rheini sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn rhoi sylw i'r ymchwil hwn ac y bydd yn eu hannog i werthuso'r systemau cefnogi cyfredol sydd ar waith i blant anabl a'u teuluoedd. Gobeithiaf hefyd y bydd yr ymchwil hwn yn atgoffa darparwyr gwasanaeth am eu dyletswydd i alluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael llais mewn materion sy'n effeithio ar eu bywydau.



**Keith Towler**
**Comisiynydd Plant Cymru.**

**CYNNWYS**

1. CYFLWYNIAD ........................................................................ 4

Nodau ac Amcanion yr Ymchwil 4

Methodoleg 5

Diffiniadau 6

2. GOFAL PLANT I BLANT A PHOBL IFANC ANABL ............................ 7

Argaeledd gofal plant 8

Talu am ofal plant 9

Manteisio ar leoedd gofal plant 10

Gwybodaeth am ofal plant 11

3. BARN Y RHIENI ........................................................................ 12

Cael at wasanaethau gofal plant priodol 12

Diffyg gwybodaeth am wasanaethau 13

Costau gofal plant 14

Ffydd mewn gwasanaethau 15

Cludiant a logisteg 15

Gofal i blant a phobl ifanc anabl hŷn 16

Gwasanaethau cynhwysol 17

Materion Cyflogaeth 19

4. DARPARWYR GOFAL PLANT ........................................................ 20

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 20

Lleoedd Gofal Plant 20

Hyfforddiant 21

5. CASGLIADAU ........................................................................ 23

# 1. Cyflwyniad

1.1 Amcangyfrifir bod 7% o blant a phobl ifanc yn y DU yn anabl[1]. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu 65,000 o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed a 43,000 o blant o dan 16 oed. Mae 8,000 o blant yng Nghymru yn ddifrifol anabl.

1.2 Mae gofal plant fforddiadwy, hygyrch i blant anabl yn allweddol er mwyn i'w rhieni gael at gyflogaeth a hyfforddiant ac er mwyn helpu i leihau tlodi plant.

1.3 Amcangyfrifir bod 55% o deuluoedd â phlentyn anabl yn byw mewn tlodi[2]. Maent yn wynebu hyd at dair gwaith cymaint â chostau teuluoedd heb unrhyw blant anabl, ond eto maent yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith a bod ar incymau isel[3]. Dim ond 3% o famau plant anabl sy'n gweithio'n amser llawn a 13% yn rhan-amser, o'u cymharu â 27% a 39% o famau eraill[4]. Mae galluogi rhieni â phlant anabl i weithio neu hyfforddi yn gam allweddol tuag at leddfu eu sefyllfa.

1.4 Mae gofal plant o ansawdd hefyd yn allweddol i alluogi plant anabl i gyflawni hyd eithaf eu gallu a bodloni eu hanghenion. Dywed Erthygl 23 o *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* y dylai plant ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig, er mwyn iddynt fyw bywydau llawn ac annibynnol.

### *Nodau ac Amcanion yr Ymchwil*

1.5 Mae'r papur hwn yn crynhoi ymchwil sy'n egluro pam mae plant anabl yng Nghymru'n llawer llai tebygol o fanteisio ar leoedd gofal plant na phlant eraill. Yn benodol mae wedi anelu at ateb y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r rhwystrau rhag cynnig gofal plant i blant anabl?
- A fyddai hyfforddiant yn annog darparwyr i dderbyn plant anabl?
- Sut mae gwybodaeth ar gael ym mhob ardal Awdurdod Lleol a sut y gellir gwneud gwelliannau?
- Beth yw prif bryderon rhieni ynghylch gofal plant i'w plant?

[1] Yr Uned Strategaeth, Gwella cyfleoedd bywyd pobl anabl (2005) Swyddfa'r Cabinet
[2] Mencap, Tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau i Ofal Plant i Rieni sy'n Gweithio (2003)

[3] Dobson, B a Middleton, S, 1998, *Paying to care: the costs of childhood disability*
[4] Yr Adolygiad Tlodi Plant, Trysorlys EM (2004)

## *Methodoleg*

1.6 Wrth gyflawni nod ac amcanion y prosiect cynhaliwyd nifer o elfennau ymchwil ar draws tair ardal sampl yng Nghymru, sef Casnewydd, Merthyr Tudful a Phowys.

### Ymchwil gyda Darparwyr Gofal Plant

1.7 Cysylltwyd â 25% o'r holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig ym mhob ardal darged i asesu eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth am faterion anabledd; eu gallu i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol; bylchau mewn hyfforddiant; ac archwilio rhywfaint o bolisïau ac arferion i asesu a oedd materion strwythurol yn cyfyngu ar fynediad. Cysylltwyd â 97 o ddarparwyr i gyd. Fe'u dewiswyd gan gyfeirio at fath (fel y nodir isod) ond hefyd yn ddaearyddol i gynrychioli lledaeniad o ddarpariaeth ar draws pob ardal ym mhob awdurdod lleol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig ym Mhowys.

**Ffigur 1: Samplu Darparwyr Gofal Plant**

| | Gwarchodwr Plant | Gofal Dydd Llawn | Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | Gofal Sesiynol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 103 | **25** | **26** | **64** | **218** |
| *Sampl* | *21* | ***5*** | ***5*** | ***13*** | ***44*** |
| Merthyr Tudful | 27 | **8** | **3** | **17** | **55** |
| *Sampl* | *5* | ***2*** | ***1*** | ***3*** | ***11*** |
| Casnewydd | 118 | **34** | **13** | **27** | **192** |
| *Sampl* | *24* | ***7*** | ***3*** | ***5*** | ***39*** |

### Ymchwil gyda Rhieni a Gofalwyr

1.8 Un o'r anawsterau wrth ymgynghori â rhieni plant anabl yw nad oes unrhyw ffynhonnell o wybodaeth am blant anabl na grŵp sy'n eu cynrychioli. I ymgysylltu â chynifer o rieni â phosibl, mabwysiadwyd amrywiaeth o strategaethau yn yr ymchwil hwn.

1.9 Cynhaliwyd dau grŵp ffocws ym Merthyr Tudful ac yng Nghasnewydd gyda grwpiau o rieni plant anabl a oedd eisoes yn cyfarfod. Ymgysylltwyd â 26 o rieni i gyd drwy'r grwpiau hyn.

1.10 Cafodd cyfanswm o 71 o rieni plant anabl ar draws y tair ardal darged gyfweliad dros y ffôn. Dyma rieni a oedd eisoes wedi dychwelyd ffurflen arolwg fer ac ynddi wedi nodi eu bod yn rhieni plant anabl a'u bod yn caniatáu i rywun gysylltu â hwy ar gyfer cyfweliad. Dosbarthwyd y ffurflenni arolwg yn wreiddiol drwy ysgolion arbennig yn y tair ardal a thrwy Cyswllt Teulu, elusen sy'n gweithio i gefnogi teuluoedd plant anabl ledled Cymru.

**Meta-Data**

1.11 Defnyddiwyd data o arolwg a gafodd ymateb gan fwy na 10,000 o rieni plant ar draws 9 awdurdod lleol yng Nghymru yn rhan o'r broses Digonolrwydd Gofal Plant i gefnogi'r wybodaeth a gafwyd yn y tair ardal sampl. Roedd y data hwn yn canolbwyntio ar y rhwystrau rhag defnyddio gofal plant i bob rhiant ond roedd yn nodi rhieni plant anabl fel grŵp penodol.

## *Diffiniadau*

1.12 Mae diffinio "person ag anabledd" a sut mae pobl ag anableddau'n canfod eu hunain yn gymhleth. Ein hymagwedd yn yr ymchwil hwn fu defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn fan cychwyn.

1.13 Ystyria'r model hwn mai agwedd arferol ar fywyd yw anabledd, nid gwyriad, ac mae'n gwrthod y syniad bod plant anabl mewn rhyw ffordd gynhenid yn "ddiffygiol". Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad o ryw fath o anabledd, boed yn barhaol neu dros dro, yn ystod eu bywydau.

1.14 Mae'r model anabledd yn cydnabod mai gwahaniaethu cymdeithasol yw'r broblem fwyaf sylweddol sy'n wynebu pobl anabl ac mai dyma achos llawer o'r problemau sy'n cael eu hystyried yn gynhenid i'r anabledd o dan y modelau eraill[5]. Byddwn hefyd yn defnyddio'r term 'Plant a Phobl Ifanc Anabl' i adlewyrchu'r ymagwedd hon.

5 Deborah Kaplan, Sefydliad y Byd ar Anabledd

# 2. Gofal Plant i Blant a Phobl Ifanc Anabl

2.1 Yn y deng mlynedd diwethaf, mae'r cyflenwad a'r galw am ofal plant yng Nghymru wedi ehangu'n sylweddol. Mae llawer o rieni'n ystyried bellach fod gofal plant yn wasanaeth hanfodol sy'n eu galluogi i weithio neu astudio. Wrth gydnabod hyn, mae'r Llywodraeth wedi derbyn bod ganddi rôl ganolog mewn sicrhau bod y gofal plant a ddefnyddia rhieni yn ddiogel a'i fod yn rhoi'r datblygiad gorau posibl i'w plant. Mae hefyd wedi ymrwymo i ddefnyddio adnoddau'n strategol i sicrhau bod gofal plant o ansawdd da, ond ei fod hefyd ar gael yn lleol am bris fforddiadwy. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynegi gweledigaeth o ofal plant yn rhan o wladwriaeth les fodern, ar gael i bob rhiant y mae arno ei angen[6].

### Sicrhau bod plant yn 'Dechrau'n Deg'

2.2 Mae ymchwil wedi arddangos buddion addysg a gofal cynnar o ansawdd uchel yn cynorthwyo datblygiad plant, gan gynnwys eu sgiliau cymdeithasol, gwybyddol ac iaith[7]. Mae astudiaeth Darpariaeth Effeithiol Addysg Cyn Ysgol wedi dangos bod darparu addysg a gofal o ansawdd uchel yn gallu lleihau risg datblygu anghenion addysgol arbennig yn nes ymlaen o un mewn tri i un mewn pump[8].

2.3 Yng Nghymru, mae'r addysg cyn oed ysgol ran-amser rad ac am ddim ar gael i bob plentyn rhwng 3 a 4 oed ac mae menter 'Dechrau'n Deg' yn darparu gofal rhan-amser pellach i blant 2 oed yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

2.4 Gall plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd deimlo'n aml eu bod ar eu pennau eu hunain; mae cyfleoedd i gymysgu â phlant eraill yn bwysig iawn ac mae integreiddio plant a phobl ifanc anabl yn allweddol i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu.

> *Byddwn wrth fy modd petai gan fy mhlentyn fywyd cymdeithasol y tu allan i'w deulu. Ei fod yn cymysgu â'i grŵp oedran ei hun a bod ffrindiau ganddo. Bydd yr integreiddio hwn bellach yn helpu ei gymdeithasoli a'i integreiddio yn y gymdeithas fel oedolyn a bydd cymorth a chefnogaeth yn awr yn lleddfu ei gyfnod pontio.*
>
> Rhiant plentyn ag awtistiaeth ac anabledd dysgu yng Nghasnewydd
>
> *Er bod anghenion arbennig gan fy mhlentyn mae'n beth da i blant gymysgu ag eraill o wahanol alluoedd.*
>
> Rhiant plentyn di-eiriau ag awtistiaeth

### Cefnogi rhieni

2.5 Mae galluogi rhieni i weithio yn rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi plant. Mewn arolygon o fwy na 10,000 o rieni


[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru: Strategaeth Gofal Plant Cymru (2005)
[7] Ed Melhuish; *Child Benefits: The importance of investing in quality childcare*, yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd (2004)
[8] Kathy Sylva et al., *The Effective Provision of Pre-School Education*. Adroddiad Terfynol (2004)

yng Nghymru yn 2008, roedd 68% o rieni y nodwyd mai nhw oedd y prif ofalwr yn gweithio. Ar gyfer rhieni plant a phobl ifanc anabl, dim ond 43% ohonynt a oedd yn gweithio[9].

2.6 Gan fod teuluoedd â phlant a phobl ifanc anabl yn llai tebygol o weithio, mae'n dilyn bod eu hincymau'n debygol o fod yn is. Yn 2008, roedd gan fwy na hanner (51%) yr holl deuluoedd â phlant rhwng 0 a 14 oed incymau o £1,751 y mis neu fwy. Ar gyfer teuluoedd â phlant anabl, y gyfran oedd dim ond 38%.

> *Roedd yn rhaid imi roi'r gorau i'r gwaith i ofalu am fy mhlentyn ag anghenion arbennig. Ailhyfforddais fel gwarchodwr plant er mwyn imi gael incwm a bod gartref.*
>
> Rhiant â phlentyn 7 oed â pharlys yr ymennydd

**Ffigur 2: Incymau Teulu Misol (2007)**




2.7 Mae teuluoedd â phlant anabl yn aml yn wynebu costau uwch na theuluoedd eraill, felly gall cyflogaeth â thâl fod yn hwb sylweddol i'w hincymau a lleddfu tlodi. Mae rhieni hefyd yn pwysleisio buddion emosiynol a seicolegol cyflogaeth, gan gynnwys mwy o hunan-barch, yn ogystal â'r cyfle i gael seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu.

> *Mae gofal plant yn wasanaeth y mae mawr ei angen i alluogi rhieni i weithio ac i roi seibiant a thawelwch meddwl iddynt.*
>
> Rhiant plentyn 13 oed â phroblemau dysgu ac ymddygiadol ym Merthyr Tudful


## *Argaeledd Gofal Plant*

2.8 Ledled Cymru, mae tua 70,000 o leoedd gofal plant sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal dydd llawn, gofal sesiynol a gofal plant y tu allan i'r ysgol[10].

[9] Melyn Consulting: Data Digonolrwydd Gofal Plant (2008)
[10] Melyn Consulting: Dadansoddiad o Gyflenwi Lleoedd Gofal Plant Cofrestredig yng Nghymru (2007)

Mewn perthynas â nifer y plant yng Nghymru, mae hyn yn golygu bod bron 13 o leoedd gofal plant ar gael i bob 100 o blant rhwng 0 a 14 oed.

**Ffigur 3: Lleoedd Gofal Plant Cofrestredig yng Nghymru (2007)**




2.9 Nid yw gofal plant yng Nghymru wedi'i ddosbarthu'n gyfartal gan fod mwy ar gael yn gyfatebol yn y gogledd na'r de; mwy mewn ardaloedd trefol nag ardaloedd gwledig; a chyswllt cryf rhwng maint y gofal plant ac amddifadedd (gyda llai o ofal plant mewn ardaloedd mwy difreintiedig)[11].

2.10 Mae cyllid ar gael ym mhob ardal i awdurdodau lleol helpu darparwyr gofal plant i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a chefnogi gofal plant cynhwysol, ond mae dyraniad cyllid yn cael ei bennu gan flaenoriaethau'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol. Mae hyn yn arwain at osod gwahanol flaenoriaethau ledled Cymru heb fod ymagwedd gyffredin at gefnogaeth.

## *Talu am ofal plant*

2.11 Mewn egwyddor, dylai pob lle gofal plant fod ar gael i blant a phobl ifanc anabl a dylai cyllid prif ffrwd i helpu gyda chost gofal plant drwy'r system credydau treth helpu rhieni ar incymau isel i dalu am ofal plant. Fodd bynnag, mae'r gost ychwanegol sy'n aml yn gysylltiedig â bodloni anghenion ychwanegol yn aml yn gwneud gofal plant yn rhy ddrud i rieni sydd eisoes dan anfantais economaidd. Oherwydd y terfyn ar gyllid gofal plant drwy'r Credyd Treth Gwaith (70% o gostau hyd at fwyafswm o £175 am un plentyn a £300 am ddau neu fwy), mae'r costau ychwanegol i ddarparu ar gyfer plentyn anabl yn gallu bod yn waharddol.

2.12 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod yr heriau economaidd sy'n wynebu teuluoedd plant anabl wrth gael at ofal plant. Mae'r Ddeddf Gofalwyr a Chyfle Cyfartal (2004) yn mynnu bod awdurdodau'n ystyried yn yr asesiad ddymuniad y gofalwr i weithio. Mae hyn yn cynnwys rhieni plant a phobl ifanc anabl. Er bod cyllid ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ar gael i awdurdodau lleol

[11] Melyn Consulting: Data Digonolrwydd Gofal Plant (2008)


drwy'r Grant Gofalwyr, prin yw'r dystiolaeth y bu teuluoedd yn gallu cael at gyllid i gefnogi gofal plant drwy'r llwybr hwn.

### *Manteisio ar leoedd gofal plant*

2.13 Mae bron hanner yr holl rieni yng Nghymru â phlant rhwng 0 a 14 oed yn defnyddio gofal plant ffurfiol yn rheolaidd[12]. Yn ogystal, mae tua un o bob pum rhiant yn defnyddio gofal anffurfiol gyda chyfeillion neu berthnasau'n gofalu am blant. Ymhlith y boblogaeth gyffredinol, rhieni sy'n gweithio sy'n defnyddio gofal plant yn bennaf.

2.14 Nid yw teuluoedd â phlentyn anabl yn defnyddio gofal plant hanner cymaint, gyda 45% o deuluoedd â phlentyn anabl yn peidio â defnyddio unrhyw fath o ofal plant o'u cymharu â dim ond 29% o'r holl deuluoedd yng Nghymru. Ar draws pob math o ofal plant – ac eithrio gofal gwyliau – maent yn defnyddio llai. Mae hyd yn oed defnyddio gofal plant anffurfiol a ddarperir gan berthnasau neu ffrindiau yn llai cyffredin ymhlith teuluoedd â phlentyn anabl.

**Ffigur 4: Rhieni'n defnyddio gofal plant yng Nghymru (2008)[13]**




2.15 Dim ond ambell riant a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hwn a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol ac ychydig iawn oedd yn defnyddio gofal anffurfiol. Gofal plant anffurfiol yw'r dewis cyntaf i'r rhan fwyaf o deuluoedd ym Merthyr Tudful ond hyd yn oed mewn ardaloedd felly, dywedodd llawer o rieni plant a phobl ifanc anabl na allent neu na fyddent yn gofyn i berthnasau am gymorth.

[12] Melyn Consulting: Data Digonolrwydd Gofal Plant (2008)
[13] Ibid

### *Gwybodaeth am ofal plant*

2.16 Mae Adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod yr ystod lawn o wybodaeth a all fod ei hangen arnynt fel rhieni ar gael i rieni plant a phobl ifanc rhwng 0 a 19 oed. Fel rheol, cyflawnir hyn drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) lleol, sydd o leiaf yn darparu llinell gymorth ffôn yn ystod oriau swyddfa. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ei bod yn rhaid i'r gwasanaeth gwybodaeth fod yn hygyrch i bawb a allai elwa arno, yn arbennig, pobl a allai gael anhawster yn manteisio arno fel arall. Dylai gwybodaeth sydd ar gael gan wasanaethau GGD gynnwys gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd, ond yn ymarferol, mae argaeledd gwybodaeth gynhwysfawr yn dameidiog. Yn 2008, dim ond 7 allan o 22 o wasanaethau GGD a oedd yn gallu rhoi gwybodaeth am wasanaethau i blant a phobl ifanc anabl[14]. Er bod y sefyllfa hon wedi gwella wrth i'r gwasanaethau hyn weithio tuag at ofynion y Ddeddf Gofal Plant, mae profiad y rhieni a holwyd yn awgrymu mai ychydig iawn sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

[14] Biwro Gwybodaeth Plant Wrecsam: Arolwg i ganfod pa mor barod mae Gwasanaethau Gwybodaeth Plant i fodloni gofynion Adran 27 o'r Ddeddf Gofal Plant (2008)

# 3. Barn y rhieni

3.1 Roedd ymgynghori â rhieni plant a phobl ifanc anabl yn amlygu ystod eang o faterion roeddent yn eu hwynebu wrth ystyried gofal plant neu geisio cael ato.

### *Cael at wasanaethau gofal plant priodol*

3.2 Mae ar lawer o rieni â phlant anabl eisiau defnyddio gofal plant. O'r 97 o rieni a gafodd gyfweliad, dywedodd 74% yr hoffent ddefnyddio gofal plant pe byddai gofal plant addas ar gael iddynt. Fodd bynnag, dywedodd dros 90% o'r rhieni hyn hefyd ei bod yn anodd dod o hyd i ofal plant a oedd yn hygyrch ac yn gallu bodloni anghenion eu plentyn.

> *Mae gan fy mab gyflwr iechyd sy'n mynnu ymweliadau rheolaidd â'r ysbyty ac mae'n aml yn sâl. Byddai gofal plant a allai fodloni ei anghenion yn ddefnyddiol.*
>
> Rhiant plentyn â syndrom Down ac anawsterau dysgu
>
> *Mae cyfleusterau yn Ysgol Maes Ebbw (cyfleusterau chwarae awyr agored bendigedig, hydrobwll, aromatherapi, ac ati) ond mae ar gau am 6 wythnos yn ystod gwyliau'r haf.*
>
> Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd
>
> *Mae'n debyg bod llawer mwy o ddarpariaeth ar gyfer anabledd corfforol nag anabledd meddyliol ac mae gwahaniaethu pendant rhwng darpariaeth plant abl a phlant anabl. Sut mae hynny'n digwydd gyda'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd?*
>
> Rhiant plentyn ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig

3.3 Plant o oed ysgol oedd gan y rhan fwyaf o'r rhieni a gyfwelwyd ac felly gofal y tu allan i'r ysgol oedd y math mwyaf cyffredin o ofal plant yr oedd ar rieni eisiau ei ddefnyddio.

> *Mae angen clybiau gwyliau arnom, hyd yn oed am ychydig oriau ar y tro. Nid yw'n ddiogel rhagor gadael i blant chwarae allan ar eu pennau eu hunain, yn enwedig pan fydd ganddynt anghenion arbennig.*
>
> Rhiant plentyn anabl ym Mhowys
>
> *Mae angen gofal ar ôl yr ysgol arnaf weithiau, a gofal plant yn y gwyliau i blant o oed ysgol uwchradd ag anableddau dysgu.*
>
> Rhiant plentyn 12 oed â syndrom Down ym Mhowys
>
> *Hoffwn weld clybiau ar ôl yr ysgol a chynlluniau chwarae gwyliau sy'n gallu darparu ar gyfer plant anabl a'r rheini ag anghenion arbennig.*
>
> Rhiant plentyn anabl 9 oed ym Merthyr Tudful

3.4 Er bod llawer o safleoedd gofal plant yn dweud eu bod yn gallu darparu ar gyfer plant anabl, dywedodd sawl rhiant a oedd wedi defnyddio gofal plant eu bod yn gweld bod lleoedd naill ai'n brin neu'n methu darparu ar gyfer eu hanghenion penodol.

> *Yr unig beth mae fy mhlentyn yn perthyn iddo yw grŵp sgowtiaid. Nid yw'n gallu perthyn i unrhyw beth arall gan ei fod yn cael cymorth un ac un yn yr ysgol ac roedd yn anodd dod o hyd i ofal plant oherwydd hyn.*
>
> Rhiant â phlentyn anabl yng Nghasnewydd
>
> *Mae angen cymorth 1:1 arnaf ar gyfer [fy mhlentyn] yn ei chartref ei hun. Fi sy'n deall ei hanghenion orau ac mae angen imi fod wrth law i'r gofalwr ddysgu ei hanghenion a'i gwendidau cyn y byddwn yn teimlo'n gyffyrddus amdani hi'n cael gofal y tu allan i'r cartref. Er enghraifft, mae'n cyfathrebu gan ddefnyddio Makaton, nid oes ganddi unrhyw ymdeimlad o berygl ac mae ganddi ddiffyg cof tymor byr. Hyd yma, mewn 3 blynedd nid wyf wedi gallu dod o hyd i unrhyw un a fydd neu sy'n gallu defnyddio Makaton gyda [fy mhlentyn] gan nad oes digon o bobl wedi'u hyfforddi ynddo. Rwy'n credu nad oes ar bobl (gwarchodwyr plant) eisiau helpu yn y cartref gyda phlentyn anabl oherwydd diffyg gwybodaeth / addysg gywir ynghylch sut brofiad fyddai hyn.*
>
> Rhiant â phlentyn â syndrom Down
>
> *Ni chefais wybod am glybiau ar ôl yr ysgol nes bod fy mab yn 11 oed. Wedyn, ni allai fynd pe byddai gormod o blant i mewn y diwrnod hwnnw oherwydd lefelau staff. Teimlwn bob amser nad oedd arnynt ei eisiau.*
>
> Rhiant plentyn â syndrom Down, anghyflawn ei olwg, nam ar ei glyw, anabledd gweledol a gofodol

### *Diffyg gwybodaeth am wasanaethau*

3.5 Roedd yn anodd dros ben cael at wybodaeth am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael, ac roedd llawer o deuluoedd yn dibynnu ar dafod leferydd gan rieni eraill mewn sefyllfaoedd tebyg neu eu hymchwiliadau eu hunain. Roedd hyn yn eu rhoi dan bwysau ac yn eu llesteirio.

> *Ychydig neu ddim gwybodaeth sydd ar gael am wasanaethau gofal plant i blant anabl.*
>
> Rhiant a gafodd gyfweliad ym Mhowys
>
> *Mwy o wybodaeth am ofal plant a'r costau – yn arbennig mewn perthynas â phlant byddar.*
>
> Rhiant â phlentyn anabl
>
> *Dydych chi ddim yn gwybod beth sydd ar gael os nad oes Gweithiwr Cymdeithasol gyda chi. Does dim eisiau Gweithiwr Cymdeithasol arnaf ond mae arnaf eisiau rhai o'r gwasanaethau a'r wybodaeth a ddaw yn sgil cael un.*
>
> Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd
>
> *Dylid rhoi gwybodaeth i'r holl rieni â phlant anghenion arbennig drwy wasanaethau cymdeithasol ac ysgolion. Nid wyf yn credu bod unrhyw beth ar gael, ond nid wyf yn gwybod sut i gael gwybod.*
>
> Rhiant plentyn anabl 9 oed ym Mhowys

3.6 Dim ond 6 o'r 74 o rieni a gafodd gyfweliad ledled Casnewydd, Merthyr Tudful a Phowys oedd yn gwybod am eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol, ac nid oedd yr un o'r rhain wedi'i ddefnyddio i gael gwybod am ofal plant. Yr hyn a oedd yn amlwg oedd bod teuluoedd â phlant anabl yn aml yn ymgymryd ag ystod eang o wasanaethau e.e. iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg ond nad oes unrhyw gysondeb yn narpariaeth y wybodaeth sydd ar gael gan yr asiantaethau hyn. Dywedodd rhieni eu bod wedi cael gwybod am

wasanaethau gan rai gweithwyr proffesiynol, ond byth mewn modd clir a dealladwy.

### Costau gofal plant

3.7 Yn fwy na thebyg, talu am ofal plant oedd y rhwystr mwyaf sylweddol i rieni plant anabl yr oedd arnynt eisiau gweithio. Roedd rhai rhieni'n cael cymorth ariannol gyda chostau gofal plant drwy'r sianeli prif ffrwd e.e. Credyd Treth Gwaith, ond yn ei chael yn anodd o hyd fforddio gofal plant oherwydd y ffioedd uwch roedd rhai darparwyr yn eu codi oherwydd yr adnoddau ychwanegol roedd eu hangen.

> *Mae gennyf blentyn awtistig ac rwyf wedi ceisio defnyddio gwarchodwr plant ond maen nhw bob amser yn fy siomi. Mae'n cymryd tipyn o amser i fy mhlentyn ymgyfarwyddo â rhywun ac wedyn maen nhw'n rhoi'r gorau i'w gymryd. Os yw plentyn yn awtistig a bod angen gofal un ac un arno, dyw gwarchodwyr plant ddim eisiau gwybod, neu mae angen eu hyfforddi, felly maen nhw'n gofyn am £10-12 yr awr y gofalwr.*
>
> Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd
>
> *Dylech fod yn gallu talu perthnasau i ofalu am eich plentyn fel y byddech yn talu gwarchodwr plant - ni allwch gael taliad heblaw eu bod yn byw i ffwrdd. Ei frawd a'i chwaer hŷn sy'n 16 ac 18 sy'n ei adnabod yn dda, rwy'n gwybod y gallant ofalu amdano, dyna'r bobl y gallaf ymddiried ynddynt ac mae hynny'n ddigon da i mi ar hyn o bryd.*
>
> Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd
>
> *Pan oedd fy mab yn byw gyda mi ni allwn fynd yn ôl i'r gwaith. Roedd gofalwyr yn gofyn am £10 yr awr ac mae ganddo 2 ofalwr, felly dyna £20 yr awr.*
>
> Rhiant plentyn awtistig ag ymddygiad heriol dros ben, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, problemau synhwyraidd.

3.8 Dengys ffigurau credyd treth Cyllid y Wlad fod teuluoedd sy'n gweithio â phlant anabl yn llai tebygol o elwa ar yr elfen gofal plant ar Gredyd Treth Gwaith na theuluoedd eraill, gyda dim ond 7.8% o deuluoedd ag un plentyn anabl yn cael yr elfen gofal plant, o'u cymharu â 14.6% o deuluoedd heb unrhyw blant anabl[15].

3.9 Mae angen gofal plant ar gyfer seibiant ar lawer o rieni plant anabl ond maen nhw'n wynebu rhwystrau cost sylweddol rhag cael ato. Mae rhai rhieni'n cael seibiant Cymhorthiad Teulu gan Wasanaethau Cymdeithasol, ond prin y mae hyn yn rheolaidd. Gall eraill dalu am seibiant drwy daliadau hunangyfeiriol, ond eto, nid yw hyn yn ddigonol i dalu am ofal plant rheolaidd.

3.10 Cynlluniau chwarae gwyliau rhad ac am ddim neu gost isel yw'r math mwyaf cyffredin o ofal plant a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc anabl, ond mae'r rhain yn afreolaidd, heb fod yn ddigonol i alluogi rhieni i weithio ac mae rhai rhieni'n poeni am ansawdd y gofal a'r oruchwyliaeth.

[15] Dadansoddiad o Ystadegau Chwarterol Credyd Treth Gwaith a Phlant Cyllid a Thollau EM

### *Ffydd mewn gwasanaethau*

3.11 Mae plant a phobl ifanc anabl yn unigryw o agored i niwed ac mae rhieni plant anabl yn dra ymwybodol o ansawdd y gofal y mae ei angen ar eu plant. Yn aml, mae angen cymorth meddygol arbenigol ar blant a phobl ifanc anabl neu gymorth gan staff sydd wedi cael hyfforddiant ynghylch cyflwr neu ymddygiad penodol. Yn gyfiawnadwy, mae rhieni'n gwylio rhag defnyddio gwasanaethau nad ydynt â llwyr ffydd ynddynt.

> *Nid oes llawer o hyfforddiant i staff ar gyfer plant ag awtistiaeth, ymddygiad heriol a namau ar y synhwyrau yng Nghymru.*
>
> Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd
>
> *Fe wnes i ddefnyddio clwb ar ôl yr ysgol am ychydig ond ni allai fy mhlentyn ymgartrefu. Nid oedd y staff yn y clwb wedi'u hyfforddi i weithio gyda phlant awtistig.*
>
> Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd
>
> *Er nad oedd unrhyw ofal plant ar gael pan ofynnais amdano, prin fyddai fy ffydd mewn unrhyw beth sydd ar gael yn lleol heblaw staff sy'n gweithio yn ysgol fy mhlentyn.*
>
> Rhiant plentyn â nodweddion anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, oediad datblygiad cyffredinol, anableddau dysgu

3.12 Yn arbennig, dywedodd rhieni'n aml na fyddent yn teimlo'n ffyddiog yn defnyddio safleoedd heb fod profiad gan aelodau o staff mewn gofalu am blant a phobl ifanc anabl.

> *Byddai diddordeb gennyf mewn defnyddio meithrinfa ddydd petai un a oedd yn derbyn plant ag anableddau. Nid oes unrhyw feithrinfeydd dydd â staff cymwys a phrofiadol i blant ag anghenion ychwanegol.*
>
> Rhiant plentyn anabl 2 oed

### *Cludiant a logisteg*

3.13 Gwelwyd bod cludiant yn rhwystro llawer o rieni plant anabl rhag defnyddio gofal plant.

> *Hoffwn petai fy mhlentyn yn gallu mwynhau clybiau ar ôl yr ysgol, ond mae cludiant cyhoeddus yn warthus yn ein hardal ni, heb fysys ar yr adegau cywir. Rydym hefyd ar fudd-dal felly ni allwn fforddio tacsi.*
>
> Rhiant plentyn ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anawsterau dysgu ac epilepsi ysgafn o Bowys
>
> *Mae cludiant yn broblem fawr, gan ein bod yn arfer cael cludiant rhad ac am ddim i ddod adref o'r clwb ar ôl yr ysgol ac i fynd â nhw yn ôl ac ymlaen i'r clwb gwyliau, ond daeth hwnnw i ben.*
>
> Rhiant plentyn â phroblemau dysgu ac ymddygiadol

3.14 Ar un llaw, efallai bydd angen cludiant arbenigol ar blant i allu mynd i safleoedd gofal plant lleol hyd yn oed. Fel arall, efallai bod cyfleusterau sy'n gallu bodloni anghenion ryw bellter i ffwrdd sy'n golygu teithio ychwanegol. Yn olaf, mae

llawer o blant a phobl ifanc anabl yn mynychu ysgolion arbennig y cludir plant iddynt. Ychydig o ysgolion arbennig sy'n darparu gofal plant drwy, er enghraifft, clybiau ar ôl yr ysgol, oherwydd ystyrir bod cludiant yn rhwystr logistaidd. Mae polisïau cludiant anhyblyg yn gallu cyfyngu ar y cyfle i blant a phobl ifanc anabl sy'n mynychu ysgolion arbennig ddefnyddio clybiau ar ôl yr ysgol yn eu cymuned gartref, yn ogystal â'r polisïau derbyn caeth sy'n golygu mai dim ond i'w disgyblion eu hunain mae llawer o glybiau ar ôl yr ysgol a gynhelir mewn ysgolion ar gael.

### *Gofal i blant a phobl ifanc anabl hŷn*

3.15 Yn aml, gall plant ddod yn fwy annibynnol wrth iddynt dyfu'n hŷn, ond i rai plant a phobl ifanc anabl, bydd gofynion gofal yn parhau neu'n cynyddu. Gwêl teuluoedd ei bod yn gynyddol anodd dod o hyd i ofal plant sy'n briodol i oedran datblygiadol eu plentyn wrth iddynt dyfu'n hŷn.

*Nid yw meithrinfeydd dydd a gwarchodwyr plant yn briodol i blant dros 10 oed.*

Rhiant a gafodd gyfweliad ym Merthyr Tudful

*Oherwydd oedran ac anabledd fy mab ni allaf gael gofal plant.*

Rhiant plentyn 12 oed ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anghenion arbennig

*Mae angen cyfleusterau a chlybiau gwyliau arnom i blant hŷn ag anableddau lle caiff staff eu hyfforddi a lle gallant reoli problemau felly ac uniaethu â phlant. Byddwn yn annog bod y rhain ar agor i bob plentyn oherwydd rwy'n gwybod na fyddai'n mynychu clybiau ar gyfer y plant hynny ag anghenion arbennig yn unig a bod angen iddo gymysgu â chymdeithas lawn i'w baratoi i fod yn oedolyn.*

Rhiant plentyn â phroblemau ymddygiadol, epilepsi, trawiadau ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd

*Oherwydd cost a darpariaeth adeiladau a gweithgareddau i bobl ifanc 21 oed a hŷn sy'n methu integreiddio â phobl o oedran tebyg, nid oes llawer ar gael. Mae clwb i blant o 5 i 20 oed ar ôl yr ysgol ac yn ystod gwyliau'r haf ond nid yw'n addas i fy mab.*

Rhiant person ifanc ag Awtistiaeth, dyspracsia

3.16 Nid yw diffiniadau cyfredol o ofal plant a'r oedrannau mae rheoliadau gofal plant yn berthnasol iddynt yn helpu. Ar hyn o bryd, dim ond wrth ddarparu ar gyfer plant o dan 8 oed y caiff gofal plant ei reoleiddio. Hyd yn oed os bydd plant hŷn yn cael at ofal plant, efallai y gwnânt hynny heb fod rheoliadau sy'n sicrhau safonau gofynnol gofal yn eu diogelu. Mae Deddf Gofal Plant (2006) yn sôn am ddyletswydd awdurdodau lleol i sicrhau gofal plant digonol i bob plentyn hyd at 14 oed a 16 oed i blant a phobl ifanc anabl. Mae archwiliad o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a gynhaliwyd yn ddiweddar ledled Cymru yn dangos mai ychydig iawn o ddarpariaeth sydd i blant hŷn o bob gallu. Roedd y sefyllfa hon yn amlwg yn llesteirio rhieni plant hŷn.

*Mae'n annheg fod gwasanaethau i blant anabl yn dod i ben pan fyddant yn cyrraedd 18 oed ac nad oes gwasanaethau cymwys pellach i'r plant hynny yn parhau i mewn i wasanaethau oedolion er eu bod yn blant mewn cyrff oedolion.*

Rhiant plentyn ag Atacsia Hollgynhwysol, Syndrom Alcohol y Ffetws difrifol, spina bifida, dim cyfathrebu

### *Gwasanaethau cynhwysol*

3.17 Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ymateb i anghenion gofal plant teuluoedd â phlant anabl drwy ddarparu neu gefnogi cynlluniau chwarae cynhwysol. Mae'r rhain ar gael yn gyffredinol yn ystod gwyliau'r haf mewn rhai ardaloedd. Er bod gwasanaethau gofal plant cynhwysol yn bodloni anghenion rhai plant a phobl ifanc anabl, roedd rhieni'n poeni am lefelau cymorth mewn safleoedd felly.

*Dim ond i ryw raddau y bydd cynlluniau chwarae cynhwysol yn gweithio. Nid yw'r gofalwyr un ac un yn goruchwylio'n ddigon da serch hynny, sy'n arwain at boenydio'r plentyn, tynnu ffotograffau ac ati, fel na fydd arno eisiau mynd yn ôl (ac rwy'n anfodlon gadael fy mhlentyn yno).*

Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd

*Cymorth un ac un mewn darpariaeth gynhwysol yn methu goruchwylio'n ddigon da - mae'n well yn awr, ond gallai fod yn broblem. Mae'n dibynnu a oes ar y plentyn eisiau aros gydag oedolyn neu beidio. Os felly, mae'n iawn, ond os na, gall fod yn anodd.*

Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd

*Mae yna'r broblem o blant eraill yn poenydio fy mhlentyn (mewn cynlluniau chwarae cynhwysol). A yw'r staff yn gwybod sut i atal bwlio? Nid yw'r staff yn dweud unrhyw beth wrthyf fi, rwy'n cael gwybod gan fy mhlentyn pan fyddwn ni gartref. Mae'r staff mewn cynlluniau chwarae mor ifanc. A yw'r staff yn sylweddoli nad yw ein plant yn gallu chwarae'r un gemau â phlant eraill o'r un oedran?*

Rhiant yng Ngrŵp Ffocws Casnewydd

3.18 Gofynnwyd i rieni yn ystod cyfweliadau a fyddai'n well ganddynt gael at wasanaethau gofal plant cynhwysol neu gyfyngol. Dywedodd mwyafrif y rhieni a holwyd y byddai'n well ganddynt wasanaethau cynhwysol.

*Mae angen sgiliau cymdeithasol ar fy mab a thrwy gymysgu â phob math o blant mae ei agwedd yn gwella.*

Rhiant plentyn ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd a Dyspracsia

*Hoffwn gyfleoedd i'm plentyn gymysgu â phlant eraill. Mae angen cymorth ac anogaeth arno. Byddai'n cael ei fwlio gan y brif ffrwd. Byddai clybiau / grwpiau cymdeithasol o blant ag anabledd tebyg yn fendigedig.*

Rhiant plentyn ag Awtistiaeth

*Mae'n dda i blant anabl gymysgu â phlant anabl a "normal". Mae plant heb unrhyw anghenion arbennig yn ddelfryd ymddwyn da i blant â phroblemau ymddygiadol.*

Rhiant plentyn ag Awtistiaeth, oediad iaith, problemau rhyngweithio cymdeithasol

*Teimlaf y dylai plant i gyd ddysgu sut i gymysgu â'i gilydd; mae rhoi gofal plant ag anghenion arbennig mewn gwasanaeth gofal plant gwahanol megis caniatáu i blant eraill ffurfio rhagfarn yn erbyn y plant hynny.*

> Rhiant plentyn ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anawsterau dysgu ac epilepsi ysgafn

3.19 Ar y llaw arall, dywedodd cyfran weddol fawr y byddai'n well ganddynt wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yn unig.

> *Rwy'n credu y byddai'n well cael gwasanaeth i blant ag anableddau tebyg fel bod yr amgylchedd yn bodloni eu hanghenion.*
>
> Rhiant plentyn ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig ac anawsterau dysgu cyffredinol.
>
> *Byddai fy mab yn ymdopi'n well yn y sefyllfa honno (gwasanaeth gofal plant ar gyfer plant ag anableddau tebyg yn unig)*
>
> Rhiant plentyn anghyflawn ei olwg, sydd â pharlys yr ymennydd ac anawsterau dysgu
>
> *Hoffwn petawn yn gallu defnyddio gofal plant a oedd ar gyfer yr un oedran â'm plant a'r un anableddau*
>
> Rhiant plentyn â phroblemau dysgu ac ymddygiadol

3.20 Dywedodd nifer fechan o rieni fod angen darpariaeth gynhwysol a chyfyngol.

> *Y ddau. Rwy'n credu ei bod yn llesol i [Fy mhlentyn] gael rhai gweithgareddau gyda phlant niwro-nodweddiadol a rhai ar gyfer pobl ag anghenion arbennig*
>
> Rhiant plentyn ag anawsterau dysgu difrifol

3.21 Er byddai rhieni efallai'n hoffi petai eu plant yn mynychu safleoedd gofal plant cynhwysol, roedd profiad a phryderon ymarferol yn golygu eu bod yn mynegi ei bod yn well ganddynt wasanaethau lle byddent yn teimlo yn anad dim y byddai eu plentyn yn ddiogel yno.

> *Yn ein profiad ni, mae llawer o blant heb anableddau, os nad y rhan fwyaf ohonynt, yn methu goddef y rheini ag anableddau.*
>
> Rhiant plentyn anabl
>
> *Yn fwy na thebyg byddai fy mhlentyn yn teimlo'n fwy cartrefol gyda phlant tebyg eraill. Mae plant "y brif ffrwd" yn tueddu i syllu a chwerthin wrth iddynt dyfu'n hŷn, maen nhw'n gwybod bod fy mab yn wahanol.*
>
> Rhiant plentyn ag anhwylder yn y sbectrwm Awtistig, anawsterau iaith/lleferydd difrifol, anawsterau sgiliau echddygol bras, ymddygiadol a dysgu difrifol.
>
> *"Nid yw integreiddio'n gweithio, nid yw'r cyfleusterau ar gael. Mae plant ag anghenion ychwanegol yn agored i niwed, ni allwn roi fy mab awtistig 14 oed mewn grŵp o blant eraill 14 oed. Rwy'n credu ei bod yn haws integreiddio plant ag anghenion ychwanegol hyd at 11 oed, ond pan fyddant yn cyrraedd y glasoed mae'n llawer anoddach".*
>
> Rhiant plentyn anabl

## *Materion Cyflogaeth*

3.22 Mae gofal plant anhygyrch yn amlwg yn rhwystr i rieni plant anabl. Dywedodd llawer o'r rhieni a gyfwelwyd eu bod yn dyheu am weithio am amrywiaeth o resymau, ond gwelai rhai ohonynt na allent wneud hynny oherwydd anghenion eu plentyn neu gan fod costau gofal yn gorbwyso enillion posibl.

*Pan na allwch gael gofal plant i'ch galluogi i weithio, nid colli incwm yn unig sy'n broblem – ond colli annibyniaeth.*

Rhiant a gafodd gyfweliad yng Nghasnewydd

*Rwy'n credu bod Powys yn siomi plant anabl yn gyffredinol. Rwyf wedi gofyn a gofyn am ofal plant digon da i'm dau o blant er mwyn imi ddychwelyd i'r gwaith a chefais wybod nad oedd unrhyw beth ar gael. Mae Powys yn gwahaniaethu yn erbyn y ddau blentyn a rhieni/gofalwyr sy'n dymuno gweithio.*

Rhiant plentyn â nodweddion anhwylder yn y sbectrwm awtistig, oediad datblygiadol cyffredinol, anableddau dysgu

*Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gael ar hyn o bryd a fyddai'n fy modloni y byddai fy mhlentyn ag anghenion arbennig yn ddiogel ac yn cael y sylw mae ei angen arno. Rwy'n dewis peidio â gweithio gan nad oes unrhyw ddarpariaeth addas ar gael.*

Rhiant plentyn â Dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, Epilepsi, Anableddau Dysgu

*Mae'r system gyfredol yn gwahaniaethu yn erbyn rhieni â phlant anabl sy'n gweithio ac mae gwasanaethau cymdeithasol yn warthus.*

Rhiant plentyn anabl yng Nghasnewydd

3.23 Roedd eraill yn gallu cyfuno gwaith a gofalu ond roeddent dan bwysau o ganlyniad. Roedd rhan fwyaf y rhieni sy'n gweithio a gyfwelwyd wedi cael anawsterau gyda'u trefniadau gofal plant ar ryw adeg ac roedd yr angen am hyblygrwydd mewn trefniadau cyflogaeth yn golygu nad oedd rhai rhieni'n gallu gweithio neu ei bod yn rhaid iddynt gymryd swyddi islaw eu lefel sgiliau.

*Nid oes digon ohono ar gael. Rwy'n fam sengl sy'n gweithio'n amser llawn, ac mae'n rhaid imi golli'r gwaith yn aml gan fod darparwyr gofal plant yn fy siomi.*

Rhiant plentyn anghyflawn ei olwg sydd â pharlys yr ymennydd ac anawsterau dysgu

*Ni allaf gael gofal plant. Mae gennyf radd dda ond rwy'n gweithio fel cynorthwyydd ystafell ddosbarth oherwydd dyna'r unig swydd y gallaf ei chael sy'n cyd-daro ag oriau ysgol fy mhlentyn.*

Rhiant a gafodd gyfweliad ym Mhowys

# 4. Darparwyr gofal plant

## *Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd*

4.1 Dylai'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2005) sicrhau y dylai *pob* gwasanaeth fod ar gael i bobl anabl, yn ddiamod. Mae'r Ddeddf hon yn ymdrin â darparwyr gofal plant y mae'n rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i blant a phobl ifanc anabl ac na chaniateir iddynt wahaniaethu. Caniateir iddynt godi tâl ychwanegol os oes angen iddynt gyflogi staff ychwanegol neu gyfyngu eu darpariaeth i lai o blant, ond dim ond am y costau *ychwanegol* y cânt godi tâl. Gall addasiad rhesymol olygu eu bod yn newid eu harfer i fodloni anghenion plentyn anabl. Efallai na fydd yn rhesymol disgwyl i warchodwr plant wneud cymaint o newidiadau i'w gartref ag y gallech ddisgwyl i Awdurdod Lleol eu gwneud i ysgol neu feithrinfa.

4.2 O'r 98 o ddarparwyr gofal plant ar draws y tair ardal sampl (Casnewydd, Powys a Merthyr Tudful) a gyfwelwyd yn 2009, dywedodd 85% eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

## *Lleoedd Gofal Plant*

4.3 O'r safleoedd gofal plant hynny a gafodd gyfweliad, dim ond mewn 10 safle (10.2%) roedd plentyn anabl yn mynychu a dim ond 15% a oedd wedi cael plentyn anabl yn defnyddio eu gwasanaethau yn y gorffennol. O'u cymharu â chyfanswm y plant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, roedd plant a phobl ifanc anabl yn cynrychioli llai nag 1%.

4.4 Mae rhieni plant anabl wedi mynd at bron chwarter o ddarparwyr gofal plant yn y gorffennol. Er bu'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu darparu gwasanaeth addas, nid oedd 16% o ddarparwyr yn gallu cynnig lle. Mewn rhai achosion, roedd eu safleoedd yn anaddas (e.e. dim mynediad i gadair olwyn neu ddiffyg rampiau). Mae rhai darparwyr yn amlwg yn mynd i'r afael â'r mater hwn:

> *Nid oedd gennym offer cywir. Roeddem yn aros i'r gwaith ailwampio orffen cyn y gallem wneud y trefniadau cywir i'r plentyn, ac erbyn cwblhau'r gwaith roedd y plentyn wedi mynd i rywle arall.*
>
> Grŵp chwarae ym Mhowys

4.5 Dywedodd 73% o ddarparwyr gofal plant fod eu safleoedd ar hyn o bryd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. O'r rheini nad oeddent yn hygyrch, roedd mwy nag un o bob tri yn cynllunio addasiadau a fyddai'n gwella mynediad.

4.6 Yn fwy cyffredin, nid oedd darparwyr gofal plant yn gallu darparu lle oherwydd diffyg staff i ddarparu gofal un ac un neu ddiffyg profiad mewn gofalu am blant anabl ymhlith staff.

> *Roedd e'n blentyn diabetig â salwch difrifol ond nid oedd unrhyw staff ar gael gyda ni i ofalu amdano.*
>
> Meithrinfa Ddydd yng Nghasnewydd

4.7 Er bod 80% o ddarparwyr gofal plant wedi dweud y gallent fodloni anghenion rhiant â phlentyn anabl yr oedd angen adnoddau ychwanegol arno (offer neu staff) petaent yn cael ymholiad ganddo, dim ond 70% a ddywedodd y gallent ddarparu gofalwr un ac un o'u hadnoddau eu hunain i blentyn anabl yr oedd angen y lefel hon o ofal arno. Dywedodd gwarchodwyr plant mai hyn fyddai'n peri'r anhawster mwyaf iddynt gan na fyddent yn gallu darparu ar gyfer plant eraill – neu eu plant eu hunain mewn rhai achosion – heb ostwng incwm yn sylweddol. Dywedodd rhai gwarchodwyr plant y byddent yn gallu darparu gofal un ac un ond y byddai angen iddynt godi dwy neu dair gwaith eu cyfradd arferol.

4.8 Dywedodd rhai darparwyr, nad oeddent yn gallu cyflenwi oherwydd diffyg gweithlu hyd yn oed pe byddent yn cael cyllid i ddarparu cymorth ychwanegol, ei bod yn broblem gallu recriwtio staff profiadol i weithio fel gofalwyr un ac un.

4.9 Ym mhob un o'r tri awdurdod a astudiwyd, roedd rhywfaint o gyllid ar gael i gefnogi gofal un ac un i blant a phobl ifanc anabl er nad oedd pob darparwr gofal plant yn ymwybodol o hyn, a dim ond lleiafrif a oedd wedi defnyddio'r cymorth hwn.

## *Hyfforddiant*

4.10 Dywedodd 70% o ddarparwyr gofal plant eu bod nhw neu eu staff wedi cael rhyw hyfforddiant mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl. Yn fwyaf cyffredin, hyfforddiant oedd hwn a roddwyd yn rhan o gwrs galwedigaethol (e.e. NVQ Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant). Dywedodd ambell ddarparwr fod ei staff wedi cael hyfforddiant penodol fel Makaton, i gefnogi gwaith gyda phlant a phobl ifanc anabl. Ar draws y tri awdurdod, roedd yn ymddangos bod lefel yr hyfforddiant yn anghyson. Roedd yr holl ddarparwyr gofal plant ym Merthyr Tudful wedi cael hyfforddiant gweddol ddiweddar ynghylch anabledd. Yng Nghasnewydd roedd tri chwarter wedi cael hyfforddiant, ond 60% oedd y ffigur ym Mhowys.

4.11 Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw beth - fel hyfforddiant neu wybodaeth - a fyddai, ym marn darparwyr, yn eu gwneud nhw neu eu staff yn fwy gwybodus, neu'n gallu darparu'n well ar gyfer plant ag anableddau, dim ond nifer fechan a ddywedodd hyfforddiant ychwanegol. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod hyfforddiant digon da ar gael, neu nad oedd angen unrhyw hyfforddiant arnynt gan nad oeddent yn gofalu am unrhyw blant a phobl ifanc anabl ar y pryd.

> *Do, cafwyd digon o hyfforddiant. Mae cyngor Casnewydd yn gynorthwyol iawn ac yn gallu talu am gost gofal un ac un.*
>
> Clwb y Tu Allan i'r Ysgol, Casnewydd
>
> *Nid wyf wedi ystyried y peth ryw lawer gan nad wyf byth wedi darparu ar gyfer plentyn ag anableddau.*
>
> Gwarchodwr Plant ym Mhowys

4.12 Dywedodd rhai yr hoffent fwy o hyfforddiant tra dywedodd eraill eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent gael at hyfforddiant priodol, pe byddai plentyn anabl yn dymuno defnyddio eu gwasanaeth.

> *Byddai hyfforddiant mwy blaengar yn dda ar blant ag anableddau, a'i ddiweddaru ymhen cyfnod penodol.*
>
> Grŵp chwarae ym Mhowys
>
> *Na - mae hyfforddiant yno bob amser os oes ei angen*
>
> Meithrinfa Ddydd ym Mhowys

4.13 Dywedodd nifer fwy yr hoffent well gwybodaeth am weithio gyda phlant a phobl ifanc anabl, ac yn arbennig am grantiau neu gymorth sydd ar gael.

> *Hoffem weld mwy o grantiau i ariannu mwy o bethau i blant ag anableddau.*
>
> Grŵp chwarae ym Mhowys
>
> *Oes, mae arnom eisiau gwybod mwy drwy'r amser gan fy mod i'n siŵr bod deddfau a pholisïau newydd yn dod allan drwy'r amser.*
>
> Meithrinfa Ddydd, Casnewydd
>
> *Mae'r hyfforddiant ym Merthyr yn dda ond byddai'n syniad da darparu taflenni i'n gwasanaethau gwarchod plant lleol am sut y gallant ddarparu ar gyfer plant anabl gan ein bod yn cael llawer o geisiadau gan rieni plant anabl am ofal plant nad ydym yn gallu ei wneud.*
>
> Clwb y Tu Allan i'r Ysgol, Merthyr Tudful

# 5. Casgliadau

5.1 Mae gofal plant ac addysg gynnar o ansawdd yn gosod sylfaen gref i ddatblygiad plant ac yn rhoi cyfleoedd pwysig i rieni am gyflogaeth a chymorth teuluol.

5.2 Bu amrywiaeth o fentrau gofal plant yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, ond hyd yma ychydig iawn sydd wedi mynd i'r afael yn benodol ag anghenion plant anabl a'u teuluoedd, sy'n cael profiad anghyfartal o anghydraddoldeb a thlodi heb fod unrhyw fai arnynt o gwbl.

5.3 Gwêl llawer o deuluoedd nad yw gofal plant hyblyg a phriodol ar gael o gwbl. Mewn llawer o ardaloedd gwledig mae diffyg unrhyw ddarpariaeth gofal plant yn cymhlethu hyn.

5.4 Dim ond i rieni sy'n gweithio mae cymorth ariannol prif ffrwd ar gael ar gyfer costau gofal plant, ond yn aml mae angen ar deuluoedd plant anabl ofal seibiant neu ofal plant sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc anabl gymysgu â'u cyfoedion i gynorthwyo datblygiad.

5.5 Nid yw llawer o deuluoedd yn gallu fforddio gofal plant – sydd yn aml yn ddrutach i blant anabl – ac felly ni allant weithio, ac mae'r broblem hon yn aml yn gwaethygu wrth i blant fynd yn hŷn a bod llai o wasanaethau ar gael.

5.6 Gall darparwyr gofal plant gael trafferth yn darparu lleoedd i blant anabl oherwydd y premiwm y mae'n rhaid iddynt ei godi i dalu costau ychwanegol.

5.7 Er bod ar y rhan fwyaf o rieni eisiau defnyddio gofal plant, mae gwybodaeth i gefnogi rhieni plant anabl yn dameidiog ac yn dibynnu ar ymagwedd ragweithiol rhieni, sy'n aml yn afrealistig o ystyried eu cyfrifoldebau eraill niferus a'u dyletswyddau gofalu.

5.8 Mae rhieni plant anabl yn ymboeni'n gyfiawnadwy fod unrhyw anghenion penodol yn cael eu bodloni a bod ansawdd y gofal plant sydd ar gael yn briodol. Gall hyn fod yn rhwystr sylweddol rhag defnyddio gofal plant gan nad yw'r hyn mae rhieni'n ei ddisgwyl gan ddarparwyr gofal plant yn cyd-fynd â'r hyn mae darparwyr gofal plant yn tybio bod gofyn iddynt ei wneud.

5.9 Er byddai'r rhan fwyaf o rieni â phlentyn anabl yn hoffi gweithio, gan fod ychydig iawn yn defnyddio gofal plant neu â phrofiad o ddefnyddio gofal plant, mae eu gorwelion yn aml yn gyfyngedig a'u huchelgeisiau'n gaeth.